YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

# Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2022

## Adroddiad

Cymru Greadigol Creative Wales

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
62/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
04/10/2022




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80364-831-6

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2022 Adroddiad

Saadiah Hood, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Delweddau gan BBC/ © Bad Wolf/ HBO, 2020; Clwb Yn Y Castell gan Simon Ayre, 2021; Alice Low, Gwyl Sŵn 2021 by Bethan Miller; Books by Women – Welsh, Cyngor Llyfrau Cymru, 2021; Foo Fighters, delweddau o Chasing Birds, 2021

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Sophie Roberts
Ymchwilydd Sector
Cymru Greadigol
Yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CymruGreadigol@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80364-831-6
4 Hydref 2022
© Hawlfraint y Goron 2022

**Cynnwys** **Tudalen**

1. Prif Ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a Methodoleg ..... 4
3. Proffil Busnes ..... 7
4. Trosiant Busnes ..... 11
5. Sgiliau a Recriwtio ..... 15
6. Cymorth Busnes ..... 19
7. Galluoedd yn y Gymraeg ..... 20
8. Goblygiadau i Gymru Greadigol ..... 22
9. Holiadur Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol ..... 23

# 1. Prif Ganfyddiadau

### Trosolwg o ymatebwyr yr arolwg

1.1 Cwblhawyd yr arolwg gan 344 o ymatebwyr, gyda hanner (51%) o'r maes cyhoeddi, un ym mhob pump (19%) o’r diwydiant sgrin, 16% o faes cerddoriaeth, ac 14% o’r diwydiant digidol. Mae traean (36%) yn hunangyflogedig neu'n weithwyr llawrydd ac mae 17% yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

### Mae COVID-19 yn parhau i gael effaith gadarn ar drosiant busnes

1.2 Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwelodd 72% gynnydd neu ddim newid mewn trosiant (gwelodd 35% gynnydd mewn trosiant a 37% dim newid / gwnaethant aros yr un peth). Ond gwelodd un o bob tri (28%) o’r ymatebwyr ostyngiad, sy’n awgrymu y gallai fod awydd am adferiad yn niwydiant creadigol Cymru i rai. Honnodd 14% o'r rhain ostyngiad o fwy na 60%.

1.3 Y rheswm a grybwyllir amlaf a roddir am y rhai sydd wedi gweld gostyngiad yw effaith COVID-19 (83%), tra bo chwarter (24%) yn nodi cwymp mewn busnes neu’r gwaith sydd ar gael, gan amlygu y gallai’r ffactorau hyn fod yn gysylltiedig.

### Mae rhai yn gweld golau ar ddiwedd y pandemig

1.4 Er bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar lawer o fusnesau, mae 35% yn nodi cynnydd yn eu trosiant o’i gymharu â’u blwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda 59% o’r rheini’n gweld cynnydd oherwydd bod COVID-19 wedi cael effaith gadarnhaol arnynt a 47% yn dweud eu bod wedi gweld mwy o fusnes a chynnydd yn y gwaith sydd ar gael.

1.5 Mae cyfran uwch (48%) yn dweud eu bod yn hyderus ynghylch rhedeg eu busnes yn broffidiol ar gyfer eu blwyddyn ariannol nesaf, o’i chymharu â’r rhai nad ydynt yn hyderus (19%).

### Mae cyllid cyhoeddus wedi rhoi gobaith i rai

1.6 Dywed tua hanner (48%) eu bod wedi cael arian cyhoeddus yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys cymorth gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyngor Celfyddydau Cymru a grantiau ardrethi busnes, a chymorth drwy’r cynllun ffyrlo. Yn ogystal, dywed 10% o ymatebwyr eu bod wedi gofyn am gyllid gan Gymru Greadigol.

### Mae bylchau mewn sgiliau neu anghenion datblygiad proffesiynol yn parhau i fod yn broblem i rai

1.7 Roedd mwy na chwarter (27%) o fusnesau eu bod wedi cael anawsterau recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r rhai sydd wedi cael anawsterau, mae 42% yn nodi bylchau mewn sgiliau yn y gweithlu neu ymhlith ymgeiswyr. Technoleg (42%) a sgiliau sy'n benodol i'r sector (43%) yw’r bylchau a grybwyllir amlaf. Yn ogystal, dywed 30% fod ganddynt fylchau mewn sgiliau neu anghenion datblygiad proffesiynol yng ngweithlu’r sector creadigol.

**Mae Cymru Greadigol yn chwarae rhan allweddol yn nyfodol busnesau – bydd twf yn hanfodol**

1.8 Fodd bynnag, dim ond 4% o'r holl ymatebwyr a hoffai weld Cymru Greadigol yn darparu cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus. Yn hytrach, hoffai dros hanner (55%) yr ymatebwyr gael cymorth ariannol pellach gan Gymru Greadigol, byddai gan ryw draean (36%) ddiddordeb mewn cyfleoedd rhwydweithio, ac mae chwarter (25%) eisiau cymorth busnes a chyngor o ran pennu blaenoriaethau.

1.9 Gan edrych at eu blwyddyn ariannol nesaf, bydd twf yn bwysig. Bydd dros hanner (54%) yn gweithio i gynyddu proffidioldeb, bydd chwarter (26%) yn gwella cyfleoedd marchnata ac ymwybyddiaeth brand, a bydd 21% yn ceisio tyfu'r gweithlu.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol?

2.1 Roedd Cymru Greadigol yn dymuno deall tueddiadau ac anghenion ymhlith y diwydiannau creadigol yng Nghymru a lledaenu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol i'r diwydiant ehangach. Mae Cymru Greadigol yn ei gwneud yn ofynnol i'r arolwg gael ei gynnal yn flynyddol a chynnwys cwestiynau tueddiadau cyfredol ad hoc am faterion cyfredol a thueddiadau yn y diwydiant ar adeg casglu data ar gyfer pob arolwg, ar y cyd â chyfres o'r un cwestiynau craidd.

2.2 Roedd angen y cam cyntaf hwn o'r ymchwil i gasglu data sylfaenol a mewnwelediadau cyffredin ar draws sectorau'r diwydiant creadigol. Bydd hyn yn ei dro yn llywio sut y gall Cymru Greadigol gefnogi sefydliadau ac unigolion orau yn y dyfodol.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.3 Gwnaeth Cymru Greadigol gomisiynu Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth annibynnol a leolir yng Nghaerdydd, i gynnal yr ymchwil hon. Rydym wedi cynnal y gwaith gan ddefnyddio dau ddull i hybu cyfraddau ymateb a chodi ymwybyddiaeth o'r arolwg ymhlith rhanddeiliaid allweddol – arolygon ffôn ac ar-lein.

2.4 Cynhaliwyd yr arolwg ffôn â diwydiannau creadigol yng Nghymru gyda chronfa ddata a gafwyd gan frocer data cymeradwy. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ochr yn ochr â'r arolwg ffôn ac fe'i dosbarthwyd i randdeiliaid allweddol amrywiol Cymru Greadigol, lle buont yn hyrwyddo ac yn rhannu dolen ar-lein i'r arolwg.

### Dull samplu

2.5 Roedd y sampl yn cynnwys y pedwar rhanbarth yng Nghymru – Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain. Cynhaliodd SRI 344 o gyfweliadau dros y ffôn ac ar-lein gydag unigolion a sefydliadau yn y diwydiannau creadigol ym mis Mawrth 2022. Hyrwyddwyd yr arolwg ar-lein gan Gymru Greadigol i ategu'r gyfradd ymateb derfynol.

2.6 Roedd hyn yn cynnwys busnesau a gweithwyr llawrydd sy'n cynrychioli'r prif sectorau a gefnogir gan GC gan gynnwys sgrin, cerddoriaeth, digidol a chyhoeddi, sydd yn y pen draw yn ffurfio'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan GC. Oherwydd y lefelau uchel o ymatebion gan y sector cyhoeddi, bydd y canlyniadau wedi sgiwio.

| Sectorau CG | Ar-lein | Ffôn | Nifer yr ymatebion a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth** | 11 | 45 | 56 |
| **Sgrin** | 26 | 39 | 65 |
| **Digidol** | 5 | 42 | 47 |
| **Cyhoeddiadau** | - | 174 | 174 |
| **Arall**[1] | 2 | - | 2 |
| **Cyfanswm** | **44** | **300** | **344** |

**Datblygiad a fformat yr arolwg**

2.7 Darparodd Cymru Greadigol amrywiaeth o bynciau i ni a oedd yn cwmpasu meysydd fel a ganlyn:

- Cyfansoddiad busnes, amrywiaeth a gwaith teg
- Perfformiad busnes a chynaliadwyedd
- Hyder busnes rhagweledig
- Prinder sgiliau
- Cymorth busnes ac ymgysylltu
- Galluoedd yn y Gymraeg
- Effeithiau COVID-19

2.8 Roedd yr holiadur terfynol yn cynnwys 29 cwestiwn – rhai caeëdig yn bennaf, ond roedd tri yn gwbl agored, gan roi cyfle i ymatebwyr roi mewnwelediad dyfnach i'r diwydiant.

**Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu?**

2.9 Mae er budd Cymru Greadigol i ddeall sefyllfa bresennol y sector yn ystod yr hyn yr ydym yn gobeithio fydd cyfnodau olaf y pandemig; wedyn, i gasglu gwybodaeth a fydd yn cefnogi'r gwaith o gynllunio adferiad ar gyfer y diwydiant yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r canlynol:

- Crynodeb o'r prif ganfyddiadau
- Proffil busnes
- Trosiant busnes
- Sgiliau a recriwtio
- Cymorth busnes
- Galluoedd yn y Gymraeg

[1] *Mae Arall yn cyfeirio at yr ymatebion i'r arolwg ar-lein a nododd 'Artist' ac 'Addysgu ffotograffiaeth' fel gweithgarwch eu busnes*

2.10 Yn ogystal â’r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi darparu’r wybodaeth ategol ganlynol:

- Darperir croesdabliadau ar gyfer adborth meintiol ar wahân fesul rhanbarth, sector, a math o fusnes
- Data crai dienw ar ffurf Excel

2.11 Rydym hefyd wedi casglu sylwadau agored a wnaed yn ystod cyfweliadau i gefnogi'r canfyddiadau meintiol.

**Dwi'n edrych ar ganran – o ble mae hon yn dod?**

2.12 Daw'r holl niferoedd a chanrannau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn o'r arolygon cyfun. Defnyddiwyd yr wyth cwestiwn cyntaf ar gyfer hidlo ac i ddeall cyfansoddiad y busnes; mae'r adroddiad hwn yn trafod canfyddiadau'r prif gwestiynau o C9 i C29.

2.13 Mae hefyd yn bwysig bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ar gyfer is-grwpiau lle mae maint y sampl yn fach. Ni chafodd pob cwestiwn gyfradd ymateb lawn, felly mae rhai meintiau samplau yn llai na chyfanswm y sampl.

2.14 Lle bo maint sampl bach iawn dan sylw, cyfeiriwn at *nifer* yr ymatebwyr yn hytrach na *chanran* yr ymatebwyr. Mae hyn oherwydd y sampl isel gan y gallai canrannau fod yn gamarweiniol.

## 3. Proffil Busnes

### Dosbarthiad y sampl


3.1 Dechreuodd yr ymchwil gyda chwestiwn sgrinio cychwynnol (yn yr arolygon ffôn ac ar-lein) i sicrhau ein bod yn cynnwys ymatebwyr cymwys sy'n gweithio yn y sectorau Cymru Greadigol a ddangosir gan Gymru Greadigol.

3.2 Gan nad oedd unrhyw ddata cymharol am boblogaeth y rhai sy'n gweithio yn sectorau Cymru Greadigol pan ddechreuodd yr ymchwil, ni osodwyd unrhyw gwotâu na chyfyngiadau, ac eithrio bod pawb 18 oed a throsodd yn gallu cymryd rhan. Cyflawnodd yr ymchwil ystod dda o ymatebwyr yn ddaearyddol, gan gynrychioli'n fras ddosbarthiad rhanbarthol poblogaeth Cymru. Yma rydym yn dangos ehangder y cyfweliadau a gwblhawyd fesul rhanbarth yng Nghymru.

3.3 Ar ôl i'r ymchwil ddod i ben, daeth rhywfaint o ddata cymharol ar gael am nifer y bobl a gyflogir ym mhob un o'r sectorau. Dangosir cymariaethau hefyd rhwng yr ymatebion a gyflawnwyd a’r niferoedd a gyflogir ym mhob sector, gan ddangos gor-gynrychiolaeth o ymatebion yn y sector cyhoeddi a thangynrychiolaeth ar gyfer y sectorau cerddoriaeth a digidol.

| Sector | Ymateb | | Poblogaeth[2] | |
|---|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 56 | 16% | 9,900 | 29% |
| Sgrin | 65 | 19% | 7,000 | 20% |
| Digidol | 47 | 14% | 8,200 | 24% |
| Cyhoeddiadau | 174 | 51% | 9,100 | 27% |
| Arall | 2 | <1% | - | - |

| Rhanbarth | Ymateb | | Poblogaeth[3] | |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 82 | 24% | 698,400 | 22% |
| Canolbarth Cymru | 15 | 4% | 205,000 | 7% |
| De Ddwyrain Cymru | 186 | 54% | 1,530,000 | 49% |
| De Orllewin Cymru | 61 | 18% | 702,000 | 22% |




[2] *Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*
[3] *Ffynhonnell: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018*

3.4 Mae'r tablau canlynol yn dangos ehangder y cyfweliadau a gwblhawyd yn ôl nodweddion busnes amrywiol.

## Proffiliau fesul rhanbarth

| Statws presennol | Cyfanswm | Rhanbarth: Gogledd | Canolbarth | De Ddwyrain | De Orllewin |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rwy'n hunan gyflogedig** | **98**<br>**28%** | 32<br>39% | 5<br>33% | 38<br>20% | 23<br>38% |
| **Rwy'n llawrydd** | **26**<br>**8%** | 5<br>6% | 1<br>7% | 17<br>9% | 3<br>5% |
| **Ar hyn o bryd rwy'n cael fy nghyflogi gan y cwmni** | **71**<br>**21%** | 10<br>12% | -<br>- | 52<br>28% | 9<br>15% |
| **Cyflogwr/ cyfarwyddwr/ perchennog** | **149**<br>**43%** | 35<br>43% | 9<br>60% | 79<br>42% | 26<br>43% |

| Busnes wedi dechrau / dechrau masnachu | Cyfanswm | Rhanbarth: Gogledd | Canolbarth | De Ddwyrain | De Orllewin |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yn y 2 flynedd ddiwethaf** | **5**<br>**1%** | 3<br>4% | -<br>- | 2<br>1% | -<br>- |
| **2-5 mlynedd yn ôl** | **18**<br>**5%** | 3<br>4% | 1<br>7% | 10<br>5% | 4<br>7% |
| **6-10 mlynedd yn ôl** | **40**<br>**12%** | 8<br>10% | 1<br>7% | 27<br>15% | 4<br>7% |
| **Mwy na 10 mlynedd yn ôl** | **281**<br>**82%** | 68<br>83% | 13<br>87% | 147<br>79% | 53<br>87% |

| Statws cyfreithiol y busnes | Cyfanswm | Rhanbarth: Gogledd | Canolbarth | De Ddwyrain | De Orllewin |
|---|---|---|---|---|---|
| **Perchnogaeth unigol / masnachwr** | **115**<br>**33%** | 35<br>43% | 5<br>33% | 48<br>26% | 27<br>44% |
| **Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau (LTD)** | **152**<br>**44%** | 34<br>41% | 5<br>33% | 95<br>51% | 18<br>30% |
| **Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant** | **16**<br>**5%** | 4<br>5% | -<br>- | 9<br>5% | 3<br>5% |
| **Partneriaeth** | **32**<br>**9%** | 5<br>6% | 3<br>20% | 15<br>8% | 9<br>15% |
| **Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig** | **1**<br>**0%** | -<br>- | -<br>- | 1<br>1% | -<br>- |
| **Sefydliad Corfforedig Elusennol** | **14**<br>**4%** | 1<br>1% | -<br>- | 10<br>5% | 3<br>5% |
| **Arall** | **14**<br>**4%** | 3<br>4% | 2<br>13% | 8<br>4% | 1<br>2% |

| | Cyfanswm | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd (y perchnogion, partneriaid neu gyfarwyddwyr) | | Gogledd | Canolbarth | De Ddwyrain | De Orllewin |
| **Gwyn** | **322**<br>**94%** | 81<br>99% | 13<br>87% | 170<br>91% | 58<br>95% |
| **Grwpiau ethnig Cymysg/ Lluosog** | **5**<br>**1%** | -<br>- | 1<br>7% | 4<br>2% | -<br>- |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | **2**<br>**1%** | -<br>- | -<br>- | 2<br>1% | -<br>- |
| **Du/Du Prydeinig** | **1**<br>**0%** | -<br>- | -<br>- | 1<br>1% | -<br>- |
| **Arall** | **1**<br>**0%** | -<br>- | -<br>- | 1<br>1% | -<br>- |
| **Ddim yn gwybod** | **8**<br>**2%** | -<br>- | 1<br>7% | 5<br>3% | 2<br>3% |
| **Gwrthod** | **5**<br>**1%** | 1<br>1% | -<br>- | 3<br>2% | 1<br>2% |

## Proffiliau fesul sector

| | Cyfanswm | Sector | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Statws Presennol | | Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddiadau | Arall |
| **Rwy'n hunangyflogedig** | **98**<br>**28%** | 15<br>27% | 9<br>14% | 12<br>26% | 62<br>36% | -<br>- |
| **Rwy'n llawrydd** | **26**<br>**8%** | 10<br>18% | 3<br>5% | 4<br>9% | 8<br>5% | 1<br>50% |
| **Ar hyn o bryd rwy'n cael fy nghyflogi gan y cwmni** | **71**<br>**21%** | 11<br>20% | 17<br>26% | 10<br>21% | 33<br>19% | -<br>- |
| **Cyflogwr/cyfarwyddwr/perchennog** | **149**<br>**43%** | 20<br>36% | 36<br>55% | 21<br>45% | 71<br>41% | 1<br>50% |


| | Cyfanswm | Sector | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes wedi dechrau / dechrau masnachu | | Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddiadau | Arall |
| **Yn y 2 flynedd ddiwethaf** | **5**<br>**1%** | 1<br>2% | 1<br>2% | 2<br>4% | 1<br>1% | -<br>- |
| **2-5 mlynedd yn ôl** | **18**<br>**5%** | 4<br>7% | 8<br>12% | 3<br>6% | 2<br>1% | 1<br>50% |
| **6-10 mlynedd yn ôl** | **40**<br>**12%** | 7<br>13% | 12<br>18% | 5<br>11% | 16<br>9% | -<br>- |
| **Mwy na 10 mlynedd yn ôl** | **281**<br>**82%** | 44<br>79% | 44<br>68% | 37<br>79% | 155<br>89% | 1<br>50% |

| Statws cyfreithiol y busnes | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddiadau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Perchnogaeth unigol / masnachwr** | **115** | 25 | 9 | 10 | 70 | 1 |
| | **33%** | 45% | 14% | 21% | 40% | 50% |
| **Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau (LTD)** | **152** | 10 | 43 | 28 | 70 | 1 |
| | **44%** | 18% | 66% | 60% | 40% | 50% |
| **Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant** | **16** | 1 | 6 | - | 9 | - |
| | **5%** | 2% | 9% | - | 5% | - |
| **Partneriaeth** | **32** | 6 | 1 | 9 | 16 | - |
| | **9%** | 11% | 2% | 19% | 9% | - |
| **Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig** | **1** | - | 1 | - | - | - |
| | **0%** | - | 2% | - | - | - |
| **Sefydliad Corfforedig Elusennol** | **14** | 9 | 1 | - | 4 | - |
| | **4%** | 16% | 2% | - | 2% | - |
| **Arall** | **14** | 5 | 4 | - | 5 | - |
| | **4%** | 9% | 6% | - | 3% | - |

| Ethnigrwydd (y perchnogion, partneriaid neu gyfarwyddwyr) | Cyfanswm | Sector: Cerddoriaeth | Sgrin | Digidol | Cyhoeddiadau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyn** | **322** | 52 | 61 | 47 | 160 | 2 |
| | **94%** | 93% | 94% | 100% | 92% | 100% |
| **Grwpiau ethnig Cymysg/ Lluosog** | **5** | 1 | 2 | - | 2 | - |
| | **1%** | 2% | 3% | - | 1% | - |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | **2** | - | 1 | - | 1 | - |
| | **1%** | - | 2% | - | 1% | - |
| **Du/Du Prydeinig** | **1** | - | - | - | 1 | - |
| | **0%** | - | - | - | 1% | - |
| **Arall** | **1** | - | - | - | 1 | - |
| | **0%** | - | - | - | 1% | - |
| **Ddim yn gwybod** | **8** | 2 | - | - | 6 | - |
| | **2%** | 4% | - | - | 3% | - |
| **Gwrthod** | **5** | 1 | 1 | - | 3 | - |
| | **1%** | 2% | 2% | - | 2% | - |

# 4. Trosiant Busnes

## Beth yw'r dyheadau busnes ar gyfer eu blwyddyn ariannol nesaf?




| Y 3 prif ddyhead busnes fesul rhanbarth yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Gogledd (82)** | **Canolbarth (15)** | **De Ddwyrain (186)** | **De Orllewin (61)** |
| *Cynyddu proffidioldeb (55%)* | *Cynyddu proffidioldeb (6*)* | *Cynyddu proffidioldeb (52%)* | *Cynyddu proffidioldeb (66%)* |
| *Gwella cyfleoedd marchnata (29%)* | *Bod yn fwy cynaliadwy (5*)* | *Gwella cyfleoedd marchnata (25%)* | *Bod yn fwy cynaliadwy (28%)* |
| *Bod yn fwy cynaliadwy (18%)* | *Cynnig ystod ehangach o wasanaethau (4*)* | *Tyfu'r gweithlu (25%)* | *Gwella cyfleoedd marchnata (25%)* |

** Dangosir atebion ar gyfer Canolbarth Cymru fel niferoedd yn hytrach na chanrannau oherwydd sylfaen isel*

| Y 3 dyhead busnes uchaf fesul sector* yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth (56)** | **Sgrin (65)** | **Digidol (47)** | **Cyhoeddiadau (174)** |
| Cynyddu proffidioldeb (55%) | Cynyddu proffidioldeb (54%) | Cynyddu proffidioldeb (53%) | *Cynyddu proffidioldeb (55%)* |
| Gwella cyfleoedd marchnata (30%) | Gwella cyfleoedd marchnata (32%) | Gwella cyfleoedd marchnata (30%) | *Rhwydweithio (20%)* |
| Tyfu'r gweithlu (20%) | Tyfu'r gweithlu (28%) | Tyfu'r gweithlu (23%) | *Gwella cyfleoedd marchnata (20%)* |


** Mae'r ymatebion o'r prif sectorau a gefnogir gan Gymru Greadigol, fel y'u diffinnir gan Gymru Greadigol*

| Y 3 dyhead busnes gorau yn ôl Math o Fusnes yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Hunangyflogedig (98)** | **Llawrydd (26)** | **Cyflogedig (71)** | **Cyflogwr(149)** |
| Cynyddu proffidioldeb (47%) | *Cynyddu proffidioldeb (9*)* | Cynyddu proffidioldeb (51%) | Cynyddu proffidioldeb (64%) |
| Gwella cyfleoedd marchnata (20%) | *Rhwydweithio (6*)* | Gwella cyfleoedd marchnata (37%) | Tyfu'r gweithlu (26%) |
| Rhwydweithio | *Cynnig ystod ehangach o wasanaethau (3*)* | Tyfu'r gweithlu (31%) | Gwella cyfleoedd marchnata (26%) |

** Dangosir atebion ar gyfer gweithwyr llawrydd fel niferoedd yn hytrach na chanrannau oherwydd maint sampl isel*

**Fel y gallem ei ddisgwyl, mae diwydiannau creadigol eisiau cynyddu eu helw**

4.1 Mae *cynyddu proffidioldeb* yn eu blwyddyn ariannol nesaf yn brif ateb ar draws y rhanbarthau yng Nghymru, ynghyd â'r sectorau a mathau o fusnes, yn enwedig gan fod COVID-19 wedi effeithio ar y diwydiant. Ond pan ddaw i'r ail safle, mae *gwella cyfleoedd marchnata* ac *ymwybyddiaeth brand* yn uchel ar eu rhestr ar gyfer y flwyddyn nesaf, i rai yn y gogledd a'r de-ddwyrain; mae bod yn fwy cynaliadwy yn uchel ar restrau eraill ar gyfer eu busnes yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru. Mae sgiw i'r sector cyhoeddi oherwydd y lefelau uchel o ymatebion gan y sector hwn.




*C10 Mae'r sector 'Arall' yn dangos nifer yr ymatebion mewn cromfachau oherwydd y sampl isel*

**Mae COVID-19 yn parhau i fod yn ddylanwad cadarn ar y diffyg trosiant busnes**


4.2 Mae 28% wedi gweld gostyngiad mewn trosiant yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf, gydag un rhan o bump (19%) o'r rhain yn honni gostyngiad o fwy na 60%. Er bod 35% wedi gweld

cynnydd yn eu trosiant, mae 25% o'r ymatebwyr hyn wedi gweld cynnydd bach yn bennaf, o tuag 1-10% o’i gymharu â'u blwyddyn ariannol ddiwethaf.

4.3 P’un a fu cynnydd neu ostyngiad mewn trosiant, y rheswm a grybwyllir amlaf yw oherwydd effaith COVID-19. Mae’r rhai sydd wedi bod yn ddigon ffodus i weld cynnydd mewn trosiant yn dweud eu bod wedi cael cynnydd mewn busnes neu’r gwaith sydd ar gael (47%).

4.4 Ymhlith y rhai sydd wedi gweld eu trosiant yn gostwng, mae hyn wedi’i briodoli’n bennaf i COVID-19 (83%), gyda chwarter (24%) yn cyfeirio at ostyngiad yn y busnes neu’r gwaith sydd ar gael. Mae'r ffactorau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig.

## A yw pobl yn y sector yn hyderus ynghylch rhedeg eu busnes yn broffidiol yn eu blwyddyn ariannol nesaf?




*C14 Mae’r sector 'Arall' yn dangos nifer yr ymatebion mewn cromfachau oherwydd y sampl isel*


### Mae hyder yn ymddangos yn dda ar hyn o bryd

4.5 Cyn y pandemig, roedd y diwydiannau creadigol yn ffynnu, gan honni mai’r sector hwn yw’r rhan o economi Cymru sydd wedi tyfu cyflymaf ers sawl blwyddyn.[4] Mae’n amlwg bod rhywfaint o optimistiaeth o hyd, gyda hanner (48%) yn honni eu bod yn hyderus y bydd eu busnes yn broffidiol yn eu blwyddyn ariannol nesaf. Roedd hyder ar ei isaf yn y sector

[4] *Ffynhonnell: [Busnes Cymru, datganiad ysgrifenedig gan Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth]*

cerddoriaeth (29%) ac ar ei uchaf yn y sector sgrin (56%), ond heb unrhyw amrywiad sylweddol fesul rhanbarth.

## Gwahaniaethau yn ôl math o fusnes




*C14 Dangosir gweithwyr llawrydd gyda nifer yr ymatebion mewn cromfachau oherwydd y sampl isel*


**Mae hyder cyflogwyr yn uwch na mathau eraill o fusnes hyd yn hyn**

4.6 Mae cyflogwyr yn adrodd mai nhw yw'r rhai mwyaf hyderus (60% gyda'i gilydd) yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, tra bo gweithwyr llawrydd, er gwaethaf maint sampl bach, yn ymddangos fel y rhai lleiaf hyderus (38% gyda'i gilydd – mae deg gweithiwr llawrydd yn hawlio hyn o 26 yn gyffredinol).

4.7 Mae cyllid cyhoeddus wedi rhoi gobaith i rai, gyda thua hanner (48%) yn dweud eu bod wedi derbyn arian cyhoeddus yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyngor Celfyddydau Cymru a grantiau ardrethi busnes, a chymorth drwy'r cynllun ffyrlo. Dywed 10% eu bod wedi gofyn am gyllid gan Gymru Greadigol, gyda'r sector sgrin yn arbennig o debygol o fod wedi gofyn am y cyllid hwn (32%). Fodd bynnag, gall diffyg gwahaniaeth rhwng cyllid Llywodraeth Cymru a chyllid Cymru Greadigol olygu nad yw'r gyfran hon yn cael ei hadrodd yn ddigonol.

## 5. Sgiliau a Recriwtio

### Pa anawsterau recriwtio y mae busnesau wedi'u hwynebu?





*Mae C18 wedi'i ofyn i gyflogwyr a gweithwyr; mae'r sector 'Arall' yn dangos nifer yr ymatebion mewn cromfachau oherwydd y sampl isel*

**Nid yw llawer o fusnesau yn recriwtio**

5.1 Mae llai nag un rhan o bump o fusnesau yn recriwtio heb anawsterau (15%), gyda 58% ddim yn recriwtio, ac mae mwy na chwarter (27%) wedi wynebu problemau recriwtio. Dangosir y rhesymau dros anawsterau recriwtio mewn siart dros y dudalen, ond mae'r brif dair rôl y mae busnesau wedi'i chael yn anodd eu llenwi yn gyffredinol yn dod o dan y sectorau canlynol. Oherwydd y meintiau sampl bach, dangosir y rhain fel niferoedd yn hytrach na chanrannau.

| Y 3 rôl fwyaf dymunol fesul sector yw: | | | |
|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth (6)** | **Sgrin (16)** | **Digidol (2)** | **Cyhoeddiadau (6)** |
| *Peiriannydd sain* | *Golygudd* | *Dylunydd Cynnwys/ Sgriptiwr* | *Gweinyddwr/ Rheolwr Swyddfa* |
| *Staff Bar* | *Cydgysylltydd Cynhyrchu* | *Rhaglennydd Blaen* | *Rheolwr Cynhyrchu* |
| *Peiriannydd golau* | *Cyfarwyddwr Cynorthwyol 1af (1AD)* | *Cynllunudd/ Artist* | *Dylunudd* |




*Gofynnwyd C20 i'r rhai sy'n cael anawsterau recriwtio*

**Mae bylchau mewn sgiliau yn fater allweddol ar gyfer recriwtio**

5.2 O'r rhai sydd wedi cael anawsterau recriwtio, mae 42% yn priodoli hyn i fylchau mewn sgiliau yn y gweithlu neu ymhlith ymgeiswyr. Mae tuag un rhan o bump (19%) yn credu bod hyn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a diddordeb yn y diwydiant.

5.3 Yn amlaf, anawsterau 'eraill' wrth recriwtio oedd bod llawer o weithwyr profiadol wedi symud allan o'u sectorau neu wedi ymddeol oherwydd y pandemig. Mae eraill yn nodi bod disgwyliadau ynghylch oriau gwaith wedi newid yn dilyn y pandemig, gydag ymgeiswyr heb fod yn barod i weithio gyda'r nos / amser llawn mwyach.

*“Diffyg hyfforddiant yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pobl wedi ymddeol a does neb i gymryd eu lle. Mae llawer yn digwydd yng Nghymru a dim digon o bobl”*
Sgrin, gogledd Cymru

*“Dim staff yn gweithio gyda’r nos bellach”*
Cerddoriaeth, de-ddwyrain Cymru

*“Mae pobl eisiau parhau i weithio gartref, felly maen nhw'n gadael os na allan nhw wneud hynny ac yn mynd i rywle arall”*
Cyhoeddi, de-ddwyrain Cymru

*“Mae pobl yn dod i'r arfer â pheidio â gweithio”*
Cyhoeddi, de-ddwyrain Cymru

*“Rwy’n gweld nad yw’r rhai hŷn eisiau gweithio’n amser llawn bellach”*
Cerddoriaeth, de-ddwyrain Cymru


*“Mae pobl yn aros mewn swyddi amser llawn mwy diogel”*
Sgrin, gogledd Cymru

*“Mae angen mwy o ddatblygwyr a gwyddonwyr data arnom a mwy o sgiliau cynnwys aml-lwyfan. Yn y cwmnïau sy’n gwneud cynnwys i ni, mae prinder sgiliau ar draws bron pob arbenigedd!”*
Sgrin, de-orllewin Cymru

*“Rhaglenwyr profiadol”*
Digidol, gogledd Cymru

*“Rydym yn gweithio yn Llanelli, felly mae pobl brofiadol yn tueddu i fyw yn ardal Caerdydd. Mae’r oriau gwaith fel arfer rhwng 10.30am a 7.30pm oherwydd natur y darllediad.”*
Sgrin, de-orllewin Cymru

## Pa fylchau mewn sgiliau y mae busnesau wedi'u hwynebu?




*Gofynnwyd C22 i'r rhai sydd â bwlch mewn sgiliau yn y gweithlu*

**Mae sgiliau penodol i’r sector ac anghenion datblygiad proffesiynol yn parhau i fod yn broblem i rai**


5.4 Technoleg (42%) a sgiliau sy'n benodol i'r sector (43%) yw’r bylchau mewn sgiliau neu'r anghenion a grybwyllir amlaf ar gyfer y sector. Mae hyn yn cysylltu â'r mathau o rolau y mae busnesau wedi methu â'u llenwi neu wedi ei chael hi'n anodd eu llenwi. Mae bylchau ‘eraill’ mewn sgiliau yn benodol iawn i anghenion pob ymatebydd ac yn cynnwys rolau swyddi (gorffenwyr printiau, golygyddion amser llawn, a dylunwyr) a sgiliau penodol (graddio cyfrifiadurol ar gyfer cerddoriaeth, sgiliau gwaith saer, ac ysgrifennu arwyddion cerbydau).

5.5 Yn ogystal, dywed 30% fod bylchau mewn sgiliau neu anghenion datblygiad proffesiynol yn y sector creadigol. Yn bennaf, mae'r rhai sydd â bylchau yn eu gweithlu yn gyflogwr, yn gyfarwyddwyr neu'n berchnogion, gyda thraean (33%) o gyflogwyr, cyfarwyddwyr neu berchnogion yn nodi bod ganddynt fylchau mewn sgiliau. Dim ond tri gweithiwr llawrydd sy'n honni bod ganddynt anghenion datblygiad proffesiynol penodol.

5.6 Mae'r ffynhonnell recriwtio a grybwyllwyd amlaf ar gyfer y rhai a oedd yn recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dueddol o fod yn ffynonellau ar-lein (16%), neu ar lafar (17%). Dim ond 8% sy'n tueddu i fynd trwy asiantaeth ac mae 3% yn defnyddio cyfeiriadur llawrydd.

## 6. Cymorth Busnes

### Sut gall Cymru Greadigol gefnogi'r diwydiant?




**Mae Cymru Greadigol yn chwarae rhan allweddol yn nyfodol busnesau – bydd twf yn hanfodol**

6.1 Byddai dros hanner (55%) yr ymatebwyr yn hoffi cael cymorth ariannol gan Gymru Greadigol, yn enwedig ymhlith y sectorau cerddoriaeth (70%) a sgrin (65%). Byddai gan draean (36%) ddiddordeb mewn cyfleoedd rhwydweithio i adeiladu eu rhestr cysylltiadau a busnes, ac mae chwarter (25%) eisiau cymorth busnes a chyngor pellach gan Gymru Greadigol. Roedd y ceisiadau am rwydweithio a chymorth/cyngor busnes yn arbennig o is (21%) ymhlith y sector cyhoeddi o'i gymharu â phob sector arall.

6.2 Roedd gan ymatebion 'eraill' syniadau amrywiol, gan gynnwys cymorth gyda recriwtio; ariannu cwmnïau neu gontractwyr 'llawr gwlad' neu rai sy'n dod i'r amlwg, yn hytrach na sefydliadau sefydledig; a helpu i hyrwyddo cwmnïau'n rhyngwladol, ond, yn bennaf, maent yn honni nad oes angen unrhyw gymorth arnynt.

**Mae cyfran fach o weithwyr llawrydd yn ystyried gadael eu proffesiwn**


6.3 Er bod y diwydiant wedi dioddef, dim ond 15% o weithwyr llawrydd sydd erioed wedi ystyried gadael eu proffesiwn yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd eu rhesymu yn tueddu i fod oherwydd y canlynol:

*"Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar fy niwydiant wedi gwneud i mi ystyried ymddeol neu symud i ffwrdd o'r busnes."*
Cyhoeddi, de-orllewin Cymru

*"Mae mor anodd bod yn hyrwyddwr"*
Cerddoriaeth, gogledd Cymru

*"Diffyg gwaith cynhyrchu teledu a chael llai o gyflog ar gyfer y gwaith"*
Sgrin, de-ddwyrain Cymru


# 7. Galluoedd yn y Gymraeg




## Mae un o bob pump yn siarad Cymraeg yn rhugl neu gryn dipyn

7.1 Tra oedd gan Ogledd Cymru gyfran sylweddol uwch o'r rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg, naill ai'n rhugl neu gryn dipyn (41%), roedd rhanbarthau eraill a oedd yn arbennig o is na'r cyfartaledd – cyfartaledd cyffredinol Cymru oedd 22%.[5]

## Gwahaniaethau yn ôl sector





*C28 Mae'r sector "Arall' yn dangos nifer yr ymatebion mewn cromfachau oherwydd y sampl isel*

[5] *Ffynhonnell:* *Arolwg Defnydd Iaith 2019-20*

7.2 Roedd gallu yn y Gymraeg ar ei uchaf ymhlith y sector sgrin (39%) ac ar ei isaf ymhlith y sector digidol (13%), tra oedd sectorau eraill yn debyg i'r cyfartaledd cyffredinol – sef 22%.

7.3 Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r 22% o ymatebwyr (gyda'i gilydd, wedi'u talgrynnu) a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad cryn dipyn o Gymraeg ynghylch faint o Gymraeg y maent yn ei siarad yn y gwaith a rhoddwyd y datganiadau canlynol iddynt gytuno neu anghytuno â nhw:




*Mae C29 wedi'i ofyn i'r rhai sy'n siarad cryn dipyn o Gymraeg neu sy'n rhugl yn yr iaith*

## Amrywiaeth eang o ddefnyddiau i'r Gymraeg

7.4 Ymhlith siaradwyr Cymraeg, mae darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith yn gyffredin. Mae siarad Cymraeg hefyd yn gyffredin iawn gyda phobl y tu allan i'w cwmni eu hunain, ond yn llai cyffredin gyda chydweithwyr.

## 8. Goblygiadau i Gymru Greadigol

### Rhaid chwarae rhan allweddol gyda'r sector

8.1 Byddai busnesau sy’n ymwybodol o Gymru Greadigol o blaid cymorth a chyngor pellach, yn enwedig o ran cymorth ariannol a chyfleoedd rhwydweithio.

8.2 Roedd y rhai nad oeddent erioed wedi gofyn am unrhyw gyllid gan Gymru Greadigol hefyd yn teimlo’r angen i Gymru Greadigol chwarae rhan a chynorthwyo i helpu eu busnes i dyfu.

### Ar ôl COVID-19 a'r dyfodol

8.3 Ymddengys fod gan fusnesau beth optimistiaeth ar gyfer eu blwyddyn ariannol nesaf yn dilyn cyfnod anodd iawn. Maent yn hyderus y bydd eu trosiant yn cynyddu. Roedd rhai busnesau wedi profi cynnydd mewn trosiant yn eu blwyddyn ariannol ddiwethaf, gan honni bod COVID-19 wedi cael effaith gadarnhaol arnynt, gan nodi eu bod wedi cael cynnydd yn y busnes / y gwaith sydd ar gael.

### Bylchau mewn sgiliau a phrinder recriwtio

8.4 Er mai dim ond nifer fach o fusnesau sy’n honni eu bod wedi dod ar draws prinder sgiliau neu broblemau recriwtio, mae’n ymddangos bod y mathau o rolau ar gyfer rhai o’r sectorau yn fwy lefel uchel, megis golygyddion yn y sector sgrin a dylunwyr yn y sectorau digidol a chyhoeddi. Er hynny, mae sgiw tuag at y sector cyhoeddi oherwydd y lefelau uchel o ymatebion gan y sector hwn. Gallai mwy o gyfleoedd rhwydweithio yma ddod â'r setiau sgiliau lefel uchel hyn i fodolaeth, yn enwedig gan fod gair ar lafar yn dueddol o fod yn un o'r prif ffynonellau recriwtio.

### Rhagolwg sector

8.5 Roedd cyhoeddi fel sector yn wahanol o ran ei ddyheadau busnes o’i gymharu â’r holl sectorau eraill, gyda llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i wella cyfleoedd marchnata a thyfu’r gweithlu. Mae ei anghenion cymorth hefyd yn amrywio, gyda llai o bwyslais ar rwydweithio a chymorth a chyngor busnes.

8.6 Mae hyder mewn proffidioldeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar ei isaf ymhlith y sector cerddoriaeth, ac ar ei uchaf ar gyfer y sector sgrin.

8.7 Roedd cyllid yn faes cymorth allweddol y gofynnwyd amdano gan y sectorau cerddoriaeth a sgrin, gyda’r rhai yn y sector sgrin yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi gofyn am gyllid gan Gymru Greadigol ac yn fwyaf tebygol o fod wedi derbyn cyllid cyhoeddus.

## 9. Holiadur Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol

**Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2022**

**Am y busnes**

C1 **Pa un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio orau'r is-sector diwydiant neu'r sector y mae eich busnes yn weithredol ynddynt?**

- Cerddoriaeth ❑
- Sgrin (gan gynnwys Animeiddio) ❑
- Digidol (gan gynnwys Gemau, Ymdrochol (Immersive), Createch) ❑
- Cyhoeddi ❑
- Arall ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________________________

C2 **Ym mha awdurdod lleol y mae eich busnes wedi'i leoli?**

- Blaenau Gwent ❑
- Pen-y-bont ar Ogwr ❑
- Caerffili ❑
- Caerdydd ❑
- Sir Gaerfyrddin ❑
- Ceredigion ❑
- Conwy ❑
- Sir Ddinbych ❑
- Sir y Fflint ❑
- Gwynedd ❑
- Ynys Mon ❑
- Merthyr Tudful ❑
- Sir Fynwy ❑
- Castell-nedd Port Talbot ❑

Casnewydd ❑
Sir Benfro ❑
Powys ❑
Rhondda Cynon Taf ❑
Abertawe ❑
Torfaen ❑
Bro Morgannwg ❑
Wrecsam ❑
Tu allan i Gymru ❑

C3 **Which of the following applies to you?**

Rwy'n hunangyflogedig ❑
Rwy'n llawrydd ❑
Yn gweithio i gwmni ar hyn o bryd ❑
Cyflogwr/ cyfarwyddwr/ perchennog ❑

C4 **When did the business/ you start trading?**

Yn y 2 flynedd diwethaf ❑
2-5 mlynedd yn ôl ❑
6-10 mlynedd yn ôl ❑
Mwy na 10 mlynedd yn ôl ❑

C5 **What is the legal status of the business?**

Perchnogaeth unigol/ masnachwr ❑
Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau (LTD) ❑
Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant ❑
Partneriaeth ❑
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ❑
Sefydliad Corfforedig Elusennol ❑
Arall ❑

C6 **Rydym yn deall bod y diwydiant creadigol yn sector amrywiol a chynhwysol, felly mae gennym ddiddordeb mewn darganfod pa mor amrywiol yw'r sectorau ar lefel arweinyddiaeth yn fanylach.**

**A allech ddweud wrthym faint, os o gwbl, o'ch cyfarwyddwyr a'ch partneriaid sy'n...?** *Nodwch rif bras lle bo modd, os nad yw'n hysbys gadewch yn wag*

Ferched: ____________________

O grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig: ____________________

Ag anabledd: ____________________

Siaradwyr Cymraeg: ____________________

C7 **I ba grwpiau ethnig y mae'r perchnogion, partneriaid neu gyfarwyddwyr yn perthyn?** *Os ydych chi'n gwybod, ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Gwyn - Saesneg / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig Gogleddol / Prydeinig ❑
- Gwyn - Gwyddelig ❑
- Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ❑
- Gwyn - Roma ❑
- Gwyn - Unrhyw gefndir Gwyn arall ❑
- Grwpiau ethnig cymysg / lluosog - Gwyn a Du Caribïaidd ❑
- Grwpiau ethnig cymysg / lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd ❑
- Grwpiau ethnig cymysg / lluosog - Gwyn ac Asiaidd ❑
- Grwpiau ethnig cymysg / lluosog - Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / lluosog arall ❑
- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Indiaidd ❑
- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd ❑
- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd ❑
- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd ❑
- Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Unrhyw gefndir Asiaidd arall ❑
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig - Affricanaidd ❑
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig - Caribïaidd ❑
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig - Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall ❑
- Grŵp ethnig arall - Arabaidd ❑
- Unrhyw grŵp ethnig arall ❑

Ddim yn gwybod ❑

Gwrthodwyd ❑

**Cyflogaeth**

C8 **Faint:** *Nodwch rif bras lle bo modd, os nad yw'n hysbys gadewch yn wag*

| | |
|---|---|
| Staff llawn amser sydd gennych chi yn y cwmni? | ______ |
| Staff rhan-amser sydd gennych chi yn y cwmni? | ______ |
| Gweithwyr llawrydd/ contractwyr a gyflogwyd gennych yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | ______ |
| Prentisiaid wnaethoch chi eu cyflogi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | ______ |
| Pobl dan hyfforddiant wnaethoch chi eu cyflogi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | ______ |
| Gwirfoddolwyr wedi gweithio i'r cwmni yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | ______ |

**Trosiant**

C9 **Hoffem wybod am eich dyheadau busnes. Yn 'eich' blwyddyn ariannol nesaf ydych chi'n debygol o...** *Dewiswch eich tri ateb gorau yn unig*

Gynyddu proffidioldeb ❑

Tyfu'r gweithlu ❑

Arallgyfeirio'r gweithlu ❑

Gweithredu arferion lles gwell ar gyfer y gweithlu/ fi fy hun ❑

Cynnig ystod ehangach o wasanaethau ❑

Bod yn fwy cynaliadwy ❑

Rhwydweithio ❑

Gwella cyfleoedd marchnata ac ymwybyddiaeth brand ❑

Contractio fel busnes/ sefydliad ❑

Arall ❑

C10 **O'i gymharu â 'eich' blwyddyn ariannol ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld cynnydd neu ostyngiad mewn trosiant, os o gwbl?**

Cynnydd ❑

Gostyngiad ❑

Dim newid/ aros yr un peth ❑

C11 **O'i gymharu â 'eich' blwyddyn ariannol ddiwethaf, faint mae hwn wedi** *{cynyddu / lleihau}***?**

Llai nag 1% ❑

1-10% ❑

11-20% ❑

21-40% ❑

41-60% ❑

61-80% ❑

81-100% ❑

Mwy na 100% ❑

Ddim yn gwybod ❑

C12 **Pam ydych chi'n meddwl hyn?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Mwy o fusnes/ gwaith ar gael ❑

Mwy o arian cyhoeddus ar gael ❑

Effeithiau pandemig Covid-19 ❑

Mwy o ymwybyddiaeth o'r busnes/ fy ngwaith ❑

Mwy o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector rwy'n gweithio ynddo ❑

Arall ❑

C13 **Pam ydych chi'n meddwl hyn?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Llai o fusnes/ gwaith ar gael ❑
- Llai o arian cyhoeddus ar gael ❑
- Effeithiau pandemig Covid-19 ❑
- Llai o ymwybyddiaeth o'r busnes/ fy ngwaith ❑
- Llai o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector rwy'n gweithio ynddo ❑
- Arall ❑

C14 **Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle nad yw 1 yn hyderus o gwbl a 5 yn hyderus iawn, pa mor hyderus ydych chi am redeg eich busnes yn broffidiol ar gyfer 'eich' blwyddyn ariannol nesaf?**

- 1 - Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- 2 ❑
- 3 – Ychydig yn hyderus ❑
- 4 ❑
- 5 - Hyderus iawn ❑

C15 **Have you received any public funding in 'your' last financial year?**

- Do ❑
- Naddo ❑

C16 **Pa ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill a gawsoch yn ystod 'eich' blwyddyn ariannol ddiwethaf?** *Rhestrwch pa ffynonellau a gawsoch*

________________________________________________________

C17 **Ydych chi wedi gofyn am unrhyw gyllid gan Cymru Greadigol?**

- Do ❑
- Naddo ❑

**Sgiliau a recriwtio**

C18 **A ydych wedi cael anawsterau recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

- Do ❑
- Na, ni chafodd unrhyw anawsterau recriwtio ❑
- Amherthnasol - dim recriwtio ❑

C19a *Os oes, sgrin*

**Pa rolau ydych chi wedi cael anhawster i'w llenwi o'r opsiynau canlynol?**

- Cyfrifydd Cynhyrchu ❑
- Cynorthwyydd Cyfrifon/Ariannydd ❑
- 1AD ❑
- 2AD ❑
- 3AD ❑
- Rhedwr/ Cynorthwyydd Cynhyrchu ❑
- Cydgysylltydd Cynhyrchu ❑
- Gwneuthurwr Gwisgoedd ❑
- Grip ❑
- Rheolwr Lleoliad ❑
- Cynorthwyydd Lleoliadau ❑
- Golygydd ❑
- Ymchwilydd ❑
- Goruchwyliwr Covid ❑
- Arall ❑

C19b *Os oes, digidol*

**Pa rolau ydych chi wedi cael anhawster i'w llenwi o'r opsiynau canlynol?**

- Dylunydd/ Artist ❑
- Arbenigwr UX ❑

- Rhaglennydd ❑
- Rhaglen Pen Blaen ❑
- Rheolwr Prosiect ❑
- Cynhyrchydd ❑
- Profi ❑
- Rheolwr Prawf ❑
- Golygydd ❑
- Dylunydd Cynnwys/ Ysgrifennwr Sgriptiau ❑
- Peiriannydd Sain ❑
- Rheolwr Rhwydwaith ❑
- Gwasanaeth Cwsmer ❑
- Lefel Gweithredol (Cyfarwyddwr) ❑
- Arall ❑

C19c *Os oes, cerddoriaeth*

**Pa rolau ydych chi wedi cael anhawster i'w llenwi o'r opsiynau canlynol?**

- Peiriannydd Sain ❑
- Staff Bar ❑
- Staff Diogelwch/Drws ❑
- Gwerthu Nwyddau ❑
- Glanhawyr ❑
- Llogi Offer ❑
- Llogi Cerbydau ❑
- Peirianwyr Goleuo ❑
- Trydanwyr ❑
- Tocynnau ❑
- Arall ❑

C19d *Os oes, cyhoeddi*

**Pa rolau ydych chi wedi cael anhawster i'w llenwi o'r opsiynau canlynol?**

- Cyhoeddwr ❑
- Golygydd (gan gynnwys Golygydd Cynorthwyol/ Golygydd Copi/ Darllenydd Prawf) ❑
- Rheolwr Cynhyrchu ❑
- Dylunydd ❑
- Gwerthiant (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwyydd) ❑
- Marchnata (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwyydd) ❑
- Cyhoeddusrwydd (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwyydd) ❑
- Hawliau (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwyydd) ❑
- Gweinyddwr/ Rheolwr Swyddfa ❑
- Cyllid (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwyydd) ❑
- Rheolwr Contractau ❑
- Arall ❑

C19e *Os oes, arall*

**Pa rolau ydych chi wedi cael anhawster i'w llenwi?**

________________________________________

C20 *Os oes*

**Pam ydych chi'n meddwl mae hyn?** *Dewiswch hyd at dri ateb yn unig*

- Diffyg cyfleoedd dilyniant a datblygiad ❑
- Bylchau sgiliau yn y gweithlu/ ymgeiswyr ❑
- Diffyg ymwybyddiaeth a diddordeb yn y diwydiant ❑
- Pobl yn symud i ffwrdd o Gymru i gael gwaith ❑
- Diffyg cyrsiau AB/ AU i ennill cymwysterau perthnasol ❑
- Tal ❑
- Cystadleuaeth gan gwmnïau eraill ❑

Sefydlogrwydd ariannol ❑

Ffactorau lles fel cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ❑

Diogelwch swydd ❑

Diffyg amodau gwaith hyblyg ❑

Nid yw'r sector creadigol yn cael ei weld fel cyflogaeth gredadwy ❑

Arall ❑

C21 **A oes gennych unrhyw fylchau sgiliau yn y gweithlu? Os ydych chi'n llawrydd, a oes gennych chi anghenion datblygiad proffesiynol penodol?**

Oes ❑

Nac oes ❑

C22 *Os oes*

**Beth ydyn nhw?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Iaith Gymraeg ❑

Cymwysterau ❑

Bylchau gwybodaeth sector-benodol neu sgiliau technegol sy’n berthnasol i’r sector ❑

Sgiliau pobl ❑

Sgiliau gweinyddol ❑

Sgiliau rheoli ❑

Sgiliau technoleg ❑

Marchnata a brandio (gwefan, cyfryngau cymdeithasol) ❑

Arall ❑

C23 **Yn ystod y 12 mis diwethaf, ble rydych chi wedi recriwtio a sut?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Ffynonellau ar-lein ❑

Trwy asiantaeth ❑

Ar lafar gwlad ❑

Cyfeiriadur llawrydd ❑

Trwy sianeli AU/ AB ❑

Arall ❑

Ddim yn berthnasol ❑

C24 **Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi wrth symud ymlaen?** *Dewiswch hyd at dri ateb yn unig*

Cyllid ❑

Rhwydweithio ❑

Cymorth a chyngor busnes ❑

Cefnogaeth gyda mynediad i hyfforddiant seiliedig ar waith ❑

Darparu cyrsiau AB/ AU a ariennir yn gyhoeddus ❑

Adnoddau ac isadeiledd ❑

Arall ❑

C25 *Freelancers*

**A ydych wedi cofrestru ar gronfa ddata Sgrin Cymru?**

Do ❑

Nac ydw ❑

C26 *Freelancers*

**Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ydych chi erioed wedi ystyried gadael eich proffesiwn?**

Do ❑

Nac ydw ❑

C27 **Pam ydych chi'n dweud hynny?**

______________________________________________

## Yr Iaith Gymraeg

C28 **Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?**

| | |
|---|---|
| Dw i’n rhugl yn y Gymraeg | ❑ |
| Dw i'n gallu siarad tipyn o Gymraeg | ❑ |
| Dim ond ychydig o Gymraeg alla i ei siarad | ❑ |
| Gallaf ddweud ychydig eiriau | ❑ |
| Dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg | ❑ |

C29 **Wrth feddwl am siarad Cymraeg yn y gwaith, wyt ti'n…?**

| | *Bob amser* | *Fel arfer* | *Weithiau* | *Na* |
|---|---|---|---|---|
| Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr am faterion yn ymwneud â gwaith | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr am faterion nad ydynt yn ymwneud â gwaith (sgwrsio’n anffurfiol) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid neu bobl y tu allan i'ch cwmni/ sefydliad | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Darllen unrhyw beth yn Gymraeg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ysgrifennu unrhyw beth yn Gymraeg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |